UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

Adolygiad o godau presenoldeb yn yr ysgol

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona Davies

Sefydliad (os yn berthnasol): UCAC

E-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 26 Mawrth 2026 i:

Cefnogi Mynediad at Addysg
Tegwch mewn Addysg
Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: AdolygiadYCP.ACCReview@llyw.cymru

## Cwestiynau

### 1. Codau ar gyfer presennol a hwyr

**Cwestiwn 1**
(1.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer y codau /\ yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | x | |

**Sylwadau ategol**

Os nad yw'r disgybl yn bresennol yn y cyfnod cofrestru, dywedir na ddylid ei nodi'n bresennol.  Mewn man arall, nodir cyfnod amser o 30 munud.  Nid yw cyfnod cofrestru pob ysgol yn para 30 munud.  Efallai y dylid nodi'n gliriach beth a olygir wrth y term 'cyfnod cofrestru'.  Cymeraf mai 'cyfnod cofrestru' o fewn y cyd-destun hwn yw'r cyfnod o 30 munud ar ddechrau'r dydd a'r cyfnod penodedig yn ystod y prynhawn ac nid yr amser a neilltuir ar gyfer cofrestru disgyblion (mewn ysgol uwchradd).

**Cwestiwn 2**
(1.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod L yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | x | |

**Sylwadau ategol**

Gweler y sylwadau ar gyfer y cwestiwn blaenorol.
Nodwn mai 'cyngor' yw cadw'r sesiwn gofrestru ar agor am 30 munud.  Er mwyn sicrhau cysondeb data, dylid pennu cyfnod sydd yr un fath i bob sefydliad.

### 2. Codau ar gyfer gweithgaredd addysgol cymeradwy

**Cwestiwn 3**
(2.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod B yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

Ar y cyfan, mae'n ddigon clir beth a olygir, ond nid yw'r rhesymeg dros y newidiadau yn ddigon clir bob amser.

**Cwestiwn 4**
(2.2) Ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad i rannu cod P?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

Mae rhannu'r cod yn darparu mwy o wybodaeth o ran data. Fodd bynnag, mae cwestiwn yn codi ynghylch yr angen i wahaniaethu rhwng chwaraeon a pherfformiadau eraill. A yw rhannu'r data yn rhoi'r argraff bod mwy o statws i un nag i'r llall? Mae perygl hefyd ein bod yn cymhlethu pethau ac yn ychwanegu at lwyth gwaith athrawon. Mae gan athrawon ddigon o bethau i boeni yn eu cylch, heb orfod poeni am restr faith o godau presenoldeb. Er bod cynyddu presenoldeb a sicrhau bod presenoldeb yn dychwelyd at y cyfraddau cyn y pandemig yn nod i'w ganmol, eto i gyd mae'n rhaid peidio â gorlwytho staff mewn ysgolion.

**Cwestiwn 5**
(2.2 1). A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer codau P1 a P2 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

Ymddengys fod y wybodaeth yn ddigon clir a'r gwahaniaeth rhwng P1 a P2 yn ddigon eglur. Fodd bynnag, ni cheir gwybodaeth ynghylch y rhesymau pam fod angen gwahaniaethu rhwng y ddau fath o absenoldeb. Yr hyn sy'n fy mhryderu i

| |
|---|
| yw bod yr holl godau amrywiol yn mynd i gymhlethu pethau i satff mewn ysgolion ac yn mynd i ychwanegu at eu llwyth gwaith. |

**Cwestiwn 6**
(2.3) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod V yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r cyfarwyddiadau yn ddigon clir. Tybed, fodd bynnag, a yw pennu fod angen i'r disgyblion (ar ddiwrnod pontio) gael eu cofrestru gan athro o'r ysgol neu fod y cofrestru yn digwydd yn yr ysgol, yn mynd i greu problemau? |

**Cwestiwn 7**
.(2.4) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod W yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Ydy. Mae'r esboniad yn ddigon clir. |

## 3. Codau ar gyfer gweithgaredd addysgol cymeradwy

**Cwestiwn 8**
(3.1) Ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad i rannu cod C?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

### Sylwadau ategol

| |
|---|
| Ar y naill law, mae rhannu'r cod yn golygu bod mwy o wybodaeth ar gael am absenoldebau, at ddiben data. Ar y llaw arall, fodd bynnag, mae cael cymaint o is-rannau i'r cod yn mynd i'w gwneud hi'n eithaf cymhleth i'r gweithlu gofnodi absenoldebau. Rhaid holi'r cwestiwn: a yw hwn yn mynd i ychwanegu at lwyth gwaith athrawon a'r gweithlu addysg? Mae llwyth gwaith athrawon yn afresymol fel y mae! Wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, teimlwn fod angen holi'r cwestiwn - gwaith pwy yw cofnodi a nodi'r codau priodol? Gwaith gweinyddol diangen yw cael athrawon i fewnbynnu'r cod cywir. Nid yw'n rhan o briod waith athrawon. |

**Cwestiwn 9**
(3.1.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C1 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

### Sylwadau ategol

| |
|---|
| Ymddengys fod y wybodaeth yn ddigon clir, ond mae rhannu C yn bump yn creu cymlethdodau ac yn ychwanegu at lwyth gwaith, dybiwn i. |

**Cwestiwn 10**
(3.1.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C2 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

### Sylwadau ategol

| |
|---|
| Gweler sylwadau uchod. |

**Cwestiwn 11**
(3.1.3) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C3 yn rhoi mwy o eglurder?

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

Gweler sylwadau blaenorol

**Cwestiwn 12**
(3.1.4) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C4 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

Gweler sylwadau blaenorol

**Cwestiwn 13**
(3.1.5) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C5 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| x | | |

Sylwadau ategol

Mae’r cyfarwyddiadau yn glir, ond mae’r categori hwn yn peri pryder. Os nad yw disgybl yn gallu mynychu’r ysgol, ni ddylid disgwyl i athrawon yr ysgol baratoi gwersi ar-lein iddo. Mae’n bwysig nad yw’r categori hwn yn gosod disgwyliadau afresymol ar athrawon.

**Cwestiwn 14**
(3.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod F yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

Ar y cyfan, mae'r wybodaeth yn cynnig mwy o eglurder, ond nid wyf yn deall y frawddeg ganlynol ar dudalen 15 y ddogfen Gymraeg ' Os na fydd yr ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau, mae'r absenoldeb yn absenoldeb awdurdodedig (cod G).' Onid 'anawdurdodedig' ddylai hwn fod? Yn y fersiwn Saesneg mae'n dweud 'If a school does not agree absence and the pupil goes on holiday, absence is unauthorised (code G).' Mae'n hynod o bwysig bod y ddwy ddogfen yn cyfateb i'w gilydd. (Mae hwn bellach wedi ei gywiro – diolch)

**Cwestiwn 15**
(3.3) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod H yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | x | |

**Sylwadau ategol**

Mae'r wybodaeth o fewn y paragraff yn ymddangos yn ddigon clir, ond mae'n gwrthddweud yr hyn a ddywedir ar dudalen 15. 'Os na fydd yr ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau, mae'r absenoldeb yn absenoldeb awdurdodedig (cod G)' (tudalen 15) ond 'Os na fydd yr ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau, mae'r absenoldeb yn absenoldeb anawdurdodedig (cod G)' (tudalen 17). Mae angen unioni'r anghysondeb cyn cyhoeddi'r dogfennau terfynol. (Mae hwn wedi ei gywiro erbyn hyn – diolch)

**Cwestiwn 16**
(3.4) Ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad i rannu cod I?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

Efallai fod rhannu cod I yn ddau a'r gwahaniaethu a wneir rhwng salwch corfforol a meddyliol yn mynd i fod yn ddefnyddiol o ran data. Gallai fod yn wybodaeth ddefnyddiol i amlygu patrymau absenoldebau a rhoi mwy o wybodaeth am resymau dros absenoldebau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos y gall fod yn hynod o gymhleth i'w weinyddu ac y bydd yn peri cynnydd mewn llwyth gwaith.

Er ei bod yn bwysig gallu adnabod enghreifftiau o orbryder a salwch nad yw'n gorfforol, rhaid gwneud yn siŵr hefyd nad yw pobl yn gorddefnyddio'r categori hwn.

Ydy rhieni bob amser yn rhoi esboniad pam nad yw eu plant yn yr ysgol – ai dweud eu bod yn sâl y maent, heb fanylu ai salwch corfforol neu feddyliol ydyw? Os felly, mae'n mynd i fod yn hynod anodd ei weinyddu.

Mae'r ffin rhwng salwch corfforol a meddyliol yn denau iawn ac nid yw'n hawdd gwahaniaethu rhyngddynt. Gall salwch meddyliol amlygu ei hun yn gorfforol ac yn yr un modd, gall salwch corfforol arwain at salwch meddyliol.

Mae angen bod yn sensitif a pharchu preifatrwydd wrth gofnodi. Ni ddylai staff addysgu orfod dweud y gwahaniaeth rhwng afiechydon gwahanol – mater i bobl broffesiynol yn y maes ydyw.

**Cwestiwn 17**
(3.4 1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod I1 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

Mae'r esboniad yn ddigon clir, ond mae perygl i'r holl gategorïau fynd yn gymhleth. Yr hyn sy'n bwysig yw fod pethau'n cael eu cadw mor syml â phosibl, er mwyn cael y wybodaeth lawnaf bosibl. Wrth ddiwygio'r codau, mae'n bwysig hefyd nad yw hynny'n creu llwyth gwaith diangen i staff ysgolion. Y perygl yw y bydd yr holl godau hyn yn:

a) Gwneud y system mor gymhleth fel y bydd unigolion ar goll ac yn ansicr pa god i'w nodi

b) Creu llwyth gwaith diangen i'r gweithlu
c) Creu anghysondeb ac o'r herwydd bydd y data fydd yn deillio o'r system yn gwbl ddi-werth

**Cwestiwn 18**
(3.4.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod I2 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

Mae'r esboniad yn ddigon clir, ond mae perygl i'r holl gategorïau fynd yn gymhleth.

**Cwestiwn 19**
(3.5) Ydych chi'n cytuno â'r newid arfaethedig i'r ystyr ystadegol ar gyfer cod J1 o 'weithgaredd addysgol cymeradwy' i 'absenoldeb awdurdodedig'?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

Ymddengys yn annheg fod mynd i gyfweliad yn cyfrif fel 'absenoldeb' i ddisgybl. Ar y llaw arall, nid ydym am greu sefyllfa lle bydd dysgwyr yn mynd i gyfweliadau niferus, oni bai bod pwrpas gwirioneddol i'r cyfweliadau hynny. Tybed a fyddai'n bosibl cadw'r cod J1 i 'weithgaredd addysgol cymeradwy' ond cyfyngu'r nifer o weithiau y gellir defnyddio'r cod J1 (yn yr un modd ag y gosodir cyfyngiad ar y cod S). Yr hyn sy'n gwneud y sefyllfa'n anodd yw fod angen goruchwyliaeth gan rywun a gymeradwyir gan yr ysgol ar gyfer digwyddiad sydd wedi ei gymeradwyo gan yr ysgol.

**Cwestiwn 20**
(3.5.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod J1 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

Mae’r cyfarwyddiadau yn glir o ran beth a ganiateir a beth na chaniateir.

**Cwestiwn 21**
(3.6) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod M yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

Mae’r esboniad yn ymddangos yn ddigon clir, ond nid wyf yn siŵr a yw’n rhoi mwy o eglurder nag yn y gorffennol.

**Cwestiwn 22**
(3.7) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod S yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

Mae'n ddealladwy pam nad oes awydd i ddefnyddio cod S yn ormodol. Mae'n drueni i'r sawl sy'n gallu astudio'n annibynnol ac sy'n gallu gwneud defnydd da iawn o'r cyfle i astudio gartref nad ydynt yn cael y cyfle i dreulio amser yn ymroi i astudio gartref, ar eu pennau eu hunain. Mae'r sawl sy'n astudio gartref yn meithrin sgil a fydd yn bwysig iawn iddynt yn nes ymlaen yn eu gyrfa addysgol.

**Cwestiwn 23**
(3.8) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod E yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

Mae'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau a nodir yn ymddangos yn weddol glir.

**Cwestiwn 24**
(3.9) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod R yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | x | |

**Sylwadau ategol**

Mae'r esboniad a roddir yn y Gymraeg yn gwbl gamarweiniol ac mae'n siom nad yw'r Gymraeg yn cyfateb i'r fersiwn Saesneg. Dyma'r hyn a welir yn y fersiwn Gymraeg:

| | |
|---|---|
| Ystyr byr | Wedi'i wahardd (ni wneir unrhyw ddarpariaeth amgen) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

Ni ddylid cysylltu R â gwaharddiad.
(Mae hwn wedi'i gywiro erbyn hyn – diolch)

**Cwestiwn 25**
(3.10) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod T yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | x | |

**Sylwadau ategol**

Mae'r esboniad a roddir yn y Gymraeg yn gwbl gamarweiniol ac mae'n siom nad yw'r Gymraeg yn cyfateb i'r fersiwn Saesneg. Dyma'r hyn a welir yn y fersiwn Gymraeg:

| | |
|---|---|
| Ystyr byr | Wedi'i wahardd (ni wneir unrhyw ddarpariaeth amgen) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

Ni ddylid cysylltu T â gwaharddiad. (Mae hwn wedi ei gywiro erbyn hyn – diolch)

## 4. Codau ar gyfer absenoldeb anawdurdodedig

**Cwestiwn 26**
(4.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod N yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

Mae'r wybodaeth yn ddigon clir ac mae'n braf gweld fod cyfnod penodol o amser wedi'i nodi ar gyfer cadw'r cod N ar y gofrestr. Mae hyn yn sicrhau mwy o gysondeb ac yn hwyluso pethau i ysgolion.

**Cwestiwn 27**
(4.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod O yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

Mae'r wybodaeth yn glir a'r enghreifftiau yr un fath ag yn fersiwn 2010. Yn amlwg, nid yw'r rhestr yn gyflawn, ond mae'n rhoi canllawiau clir ar y math o resymau sy'n annerbyniol i'w nodi fel absenoldebau awdurdodedig.

**Cwestiwn 28**
(4.3) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod G yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | X | |

**Sylwadau ategol**

Pam fod angen cyfeirio'n benodol at blant y sawl sydd yn y lluoedd arfog? Onid ydynt yn dod i mewn i'r categori canlynol:

'Pan fo rhieni wedi darparu tystiolaeth bod eu patrymau gwaith yn eu hatal rhag cymryd gwyliau yn unol â dyddiadau tymhorau ysgol cyhoeddedig'

Teimlaf ei bod yn beryglus nodi un carfan o weithwyr yn benodol.

**Cwestiwn 29**
(4.4) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod U yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

Mae'r cyfarwyddiadau yn ddigon clir.

## 5. Codau ar gyfer 'dim rhaid bod yn bresennol'

**Cwestiwn 30**
(5.1) A ydych yn cytuno â newid ystyr ystadegol cod D o 'weithgaredd addysgol cymeradwy' i 'dim yn rhaid bod yn bresennol'?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

Ymddengys fod y newid yn un rhesymol.

**Cwestiwn 31**
(5.1.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod D yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

Mae'r wybodaeth yn gliriach nag yn nogfen 2010, gyda rhannau oedd yn ymddangos i gymhlethu materion, wedi'u dileu.

**Cwestiwn 32**
(5.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod X yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r wybodaeth yn glir ac wedi ei diwygio yn unol â'r gofynion newydd e.e. wedi newid cod C i C4. |

**Cwestiwn 33**
(5.3) Ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad i rannu cod Y?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | x | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae creu pum cod allan o un cod yn mynd i greu cymhlethdod a llwyth gwaith ychwanegol, yn ôl pob golwg. A oes angen rhannu'r cod o gwbl? Onid yw ei rannu'n bump yn ymddangos yn llawer yn rhy gymhleth? |

**Cwestiwn 34**
(5.3.1) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y1 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r wybodaeth yn ymddangos yn glir. |

**Cwestiwn 35**
(5.3.2) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y2 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'n ymddangos yn eithaf clir, ond mae'n anodd credu bod angen yr holl gymhlethdod a manylion wrth gofnodi absenoldeb. |

**Cwestiwn 36**
(5.3.3) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y3 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Gweler y sylwadau uchod. |

**Cwestiwn 37**
(5.3.4) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y4 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Gweler y sylwadau uchod. |

**Cwestiwn 38**
(5.3.5) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y5 yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| | | x |

Sylwadau ategol

| |
|---|
| Gweler y sylwadau uchod. |

**Cwestiwn 39**
(5.4) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Z yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | |

Sylwadau ategol

| |
|---|
| Nid yw'r tabl yn y ddogfen Gymraeg yn gwneud synnwyr o fewn y cyd-destun hwn. Unwaith eto, dyma enghraifft o anghysondeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg a diffyg sylw i fanylion.<br>Brief Meaning Pupil not on roll Statistical Meaning Not counted in possible attendances Legal Meaning Pupil not registered at the school Physical Meaning Not required to be in school<br>Yn y Gymraeg, ceir Ystyr byr Gorfod cau ysgol Ystyr ystadegol Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl Ystyr cyfreithiol Absenoldeb oherwydd amgylchiadau eithriadol Ystyr Ffisegol Nid oes angen bod yn yr ysgol<br><br>(Mae hwn wedi ei gywiro erbyn hyn – diolch) |

**Cwestiwn 40**
(5.5) A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod # yn rhoi mwy o eglurder?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| | | x |

Sylwadau ategol

| |
|---|
| Mae'r diffiniad yn debyg iawn i'r un blaenorol. |

**Cwestiwn 41**
(6) Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y codau presenoldeb diwygiedig ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Sylwadau ategol**

Mae angen sicrhau nad oes mwy o absenoldebau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gan fod disgyblion yn debygol o fod yn teithio ymhellach i'r ysgolion hynny.

**Cwestiwn 42**
(7) Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r polisi arfaethedig er mwyn:

- sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

Mae'n amlwg mai dogfen Saesneg wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg yw hon. Yn anffodus, roedd nifer o wallau ffeithiol yn y ddogfen Gymraeg wreiddiol. Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith i'r gwallau hynny gael eu cywiro, ond ymddengys fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pam nad oedd y dogfennau wedi'u gwirio i sicrhau cywirdeb, cyn agor yr ymgynghoriad?

**Cwestiwn 43**
(8) Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

**Bod yn ddienw**

Mae'n bosibl y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi. Bydd eich adborth yn ddienw. Fodd bynnag, os hoffech i'ch enw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch x yn y blwch.

| | |
|---|---|
| Rwy'n cytuno i'm enw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'm hymateb i'r ymgynghoriad hwn. | |